Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

Llawlyfr i Ddysgwyr

Addysg Oedolion Cymru
7 a 9 Iard y Cowper
Ffordd Curran
Caerdydd
CF10 5NB

03300 580845
addysgoedolion.cymru
gwybodaeth@addysgoedolion.cymru

@alwcymru

Cynnwys

2	Croeso a Rhifau Defnyddiol
5	Cymorth i Ddysgwyr
6	Cymorth Ariannol
7	Sgiliau Hanfodol
8	Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
10	Gwrth-hiliaeth yn AOC
12	Lles
15	Cadw'n Ddiogel
17	Yr Iaith Gymraeg
18	Cytundeb Dysgu a Chod Ymddygiad Dysgwyr
22	Gwybodaeth am Asesiadau
24	Llên-ladrad a Chamymddwyn
26	Aelodaeth
29	Canllaw Marcio Llythrennedd
30	Nodiadau
31	Atgoffa Wythnosol

Llongyfarchiadau ar ddechrau eich cwrs newydd!

Rydym eisiau i chi fwynhau dysgu gyda ni, felly cadwch y canllaw bach hwn gyda chi, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol y bydd ei hangen arnoch yn ystod eich cwrs gydag Addysg Oedolion Cymru (AOC). Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r gwagle hwn i gofnodi gwybodaeth cysylltu ddefnyddiol.

Enw'r a chyfeiriad e-bost fy nhiwtor:

.....

Enw'r Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm (CDC):

.....

Rhifau Defnyddiol

Ymholiadau cyffredinol
info@adultlearning.wales
03300 580845

Gwasanaethau Dysgwyr
gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru

Cymorth gyda chofrestru ar-lein
nla@adultlearning.wales

Cymorth lles ac ariannol
gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru
fcf@adultlearning.wales

Cymorth digidol a mynediad at TG
nla@adultlearning.wales

Cymorth arholiadau ac achredu
addysg-quality-assurance@adultlearning.wales

Cymorth i Ddysgwyr

Rydym am i chi fwynhau eich dysgu gyda ni a chael cymaint â phosibl allan o'ch cwrs. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall oedolion wynebu pob math o broblemau a heriau ar wahanol adegau yn eu bywydau. Rydym yn anelu at fod yn anffurfiol ac yn hyblyg, ac os ydych yn cael problemau, rydym yn awyddus i estyn cymorth os gallwn.

Os ydych yn wynebu rhwystr i'ch dysgu, p'un a yw hyn yn ymwneud â gofal plant, cyfrifoldebau gofal dibynyddion, trefniadau domestig, anawsterau teithio, prynu deunyddiau, benthyca offer, anghenion dysgu ychwanegol, neu unrhyw beth arall, siaradwch gyda'r tiwtor.

Yn AOC rydym yn cydnabod bod pawb yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd a bod ganddynt wahanol anghenion. Rydym yn cynnig sesiynau sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu ystod o anghenion dysgu a gallant gynnig darpariaethau dysgu ychwanegol amrywiol. Siaradwch gyda'ch tiwtor os ydych yn meddwl y gallai fod angen cymorth neu adnoddau ychwanegol arnoch yn yr ystafell ddosbarth.

Os ydych yn poeni am unrhyw agwedd o'ch cwrs ac yn dymuno siarad gyda rhywun yn gyfrinachol, cysylltwch â ni, rydym yn barod i wrando. Mae'r bobl y gallech siarad gyda nhw yn cynnwys eich tiwtor, eich Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm (CDC), neu aelod o'r tîm Gwasanaethau Dysgwyr. E-bostiwch **gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru**

Cymorth Ariannol

Os ydych yn wynebu rhwystrau ariannol i'ch dysgu, gofynnwch i'ch tiwtor am sut gallwn eich helpu. Gallwn gynnig cymorth i ddysgwyr sy'n derbyn budd-daliadau, o gartrefi incwm isel, neu'n wynebu caledi ariannol. Mae cymorth ar gael hefyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Cronfa Ariannol Wrth Gefn

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF). Mae'r gronfa hon yn cynnig cymorth gyda chludiant, llyfrau, offer, gofal plant, deunydd ysgrifennu, ffioedd arholiad, ymweliadau addysgol a chostau sy'n gysylltiedig gydag anabledd.

E-bostiwch **fcf@adultlearning.wales** am ffurflen gais, neu gofynnwch i'ch tiwtor.

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Os yw eich cwrs dros 275 awr ac yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am gyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** i weld a ydych yn gymwys i dderbyn cyllid grant.

Sgiliau Hanfodol

Os ydych yn cael anhawster gyda sgiliau darllen, ysgrifennu neu rifedd Cymraeg neu Saesneg, rydym am eich helpu i gyflawni hyd orau eich gallu. Mae cymorth ar gael i'ch cefnogi trwy gydol eich cwrs. Efallai y bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan eich tiwtor, ond os gwnewch ein hysbysu ymlaen llaw, gallwn wneud trefniadau i Gynorthwyydd Cymorth Dysgu (LSA) ychwanegol weithio gyda chi. Mae gennym hefyd staff sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad ar ddatblygu Sgiliau Hanfodol y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae datblygu'r sgiliau hyn yn berthnasol i'r holl gyrsiau a'r lefelau a ddarparwn. Felly, os ydych yn teimlo y gallech wneud gyda rhywfaint o gymorth, siaradwch gyda'ch tiwtor, Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm neu'r tîm Gwasanaethau Dysgwyr. Byddwn yn gwneud ein gorau i helpu.

Llythrennedd Digidol

Rydym am roi pob cyfle posibl i chi ennill a gwella eich sgiliau digidol wrth ddysgu gyda ni. Gallwn ddarparu cymorth ac offer i ddatblygu eich sgiliau llythrennedd digidol i wella eich dysgu.



Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ystod lawn o addysg hygyrch i chi. Ein nod yw sicrhau y gallwch wneud cynnydd rhagorol ar eich cwrs, hyd yn oed os ydych yn wynebu rhwystrau i'ch dysgu. Rydym yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i weithio gyda chi, i adnabod a chefnogi unrhyw anghenion dysgu unigol gallai fod gennych.

Sut i ddweud wrthym fod angen cymorth arnoch

Mae sawl ffordd y gallwch ddweud wrthym fod angen cymorth arnoch, yn dibynnu ar y math o gwrs a hyd eich cwrs. Gallwch roi gwybod i ni ar eich ffurflen gofrestru, neu gallwch siarad gyda'ch tiwtor neu'r Gwasanaethau Dysgwyr unrhyw bryd yn ystod eich cwrs.

Gallwn weithio gyda chi a'ch tiwtor i benderfynu pa gymorth wedi'i deilwra sy'n gweddu orau i'ch anghenion. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa adnoddau ychwanegol, staff neu dechnoleg gynorthwyol arbenigol y gallem eu darparu. Nid oes angen diagnosis ffurfiol arnoch i ofyn am gymorth.

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais am gefnogaeth, bydd aelod o'n tîm yn cysylltu gyda chi. Byddwn yn monitro, adolygu a thrafod eich anghenion cymorth gyda chi drwy gydol y cwrs, felly cofiwch barhau i siarad gyda ni am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda!

Os ydych yn teimlo bod eich angen ychwanegol oherwydd rhwystr iaith, rhowch wybod i ni, a gallwn eich cyfeirio at y cwrs cywir i helpu gyda hyn. Cysylltwch gyda **gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru** os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gwrth-hiliaeth yn AOC

Mae AOC yn cefnogi'n llwyr weledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Gymru sy'n wrth-hiliol'. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol, gan greu diwylliant heb unrhyw oddefgarwch a newid ein systemau, polisïau a gweithdrefnau i ddileu hiliaeth ym mhopeth a wnawn. Bydd ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i wneud newidiadau mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol drwy fynd i'r afael gyda hiliaeth.

Rhannu Profiadau Gwirioneddol

Mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar y rhai sydd gyda phrofiad gwirioneddol o hiliaeth a'i effaith, wrth i ni weithio i gyflawni ein hymrwymiad. Byddwn yn gweithio'n galed i greu man diogel lle gobeithiwn byddwch yn teimlo'n gyfforddus i siarad am eich profiadau gyda'n cefnogaeth a'n dealltwriaeth. Byddwch yn gallu siarad yn agored, yn rhydd o farn. Bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu. Byddwn yn sicrhau bod cymorth proffesiynol ar gael a bydd unrhyw adborth yn parchu eich dymuniad i aros yn ddienw, pe bai'n well gennych.

Os ydych yn fodlon rhannu eich profiad fel y disgrifir uchod, cysylltwch gyda Cath Hicks, Dirprwy Brif Weithredwr - Gwasanaethau Gweithredol:
cath.hicks@adultlearning.wales

Ein Hymrwymiadau i'n dysgwyr

- Rydym yn cydnabod bod hiliaeth yn bodoli mewn cymdeithas, a bod hyn yn hynod niweidiol. Rydym yn cydnabod effeithiau hiliaeth a byddwn yn cefnogi ein staff Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, dysgwyr ac aelodau a allai brofi'r effeithiau hyn.
- Byddwn yn eich annog i siarad am hiliaeth, gan roi amser a lle i chi siarad am eich profiadau, gyda hyder y bydd rhywun yn gwrando arnoch ac yn eich cefnogi.
- Byddwn yn ymgorffori gwrth-hiliaeth yn ein cwricwlwm, ac yn sicrhau eiriolaeth dros wrth-hiliaeth ar bob cyfle, gan herio hiliaeth lle rydym yn ei weld.
- Nid yw ein tîm rheoli ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn ein sefydliad na'r gymdeithas ehangach, ac rydym yn gweithio i newid hyn. Rydym wedi ymrwymo i lunio hyfforddiant a'r gefnogaethbarhaus sydd eu hangen ar ein tîm cyfan i fod yn gynghreiriaid effeithiol. Rydym am sicrhau nad yw'r gwaith o fynd i'r afael â hiliaeth yn disgyn ar y rhai sydd eisoes yn profi ei anghyfiawnder.
- Byddwn yn agored ac yn onest am ein cynnydd ar wrth-hiliaeth, ac yn ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol byddwn yn gosod nodau clir i fesur ein cynnydd yn eu herbyn.
- Rydym am hyrwyddo gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn, er budd ein dysgwyr, staff, gwirfoddolwyr, aelodau a'r gymuned ehangach.

Lles

Gall dysgu oedolion fod yn anodd pan fo heriau personol eraill yn effeithio ar eich bywyd dyddiol Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth llesiant cynhwysol i'n holl ddysgwyr.

Mae AOC yn sefydliad sy'n ystyriol o Drawma, ac mae gwybodaeth am drawma a'i effeithiau yn llywio ein polisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae gennym ystod o gymorth iechyd a lles ar gael tra byddwch yn astudio gyda ni. Er na allwn gynnig gwasanaethau hollol arbenigol, gallwn eich cyfeirio atynt, a gweithio gyda darparwyr eraill i gynnig cymorth gydag unrhyw anawsterau a wynebir gennych.

Mae ein Twlcit (Pecyn Cymorth) Iechyd a Lles ar-lein yn cynnwys adnoddau a gwybodaeth am sefydliadau sy'n medru cynnig cymorth a chyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ffonio: 03300 580 845
Anfon neges destun: 07715 904 304
E-bostiwch:
gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru

Cwnsela

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai byddwn yn gallu rhoi'r cyfle i chi gael cymorth cyfrinachol am ddim gan gwnselydd, os ydych yn teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol.

I gael mynediad i'r gwasanaeth hwn, gallwch siarad gyda'ch tiwtor, e-bostio **gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru** neu lenwi'r ffurflen hunanatgyfeirio cwnsela. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Urddas yn ystod Mislif

Mae'r cynllun hwn, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn eich galluogi i gael cynhyrchion mislif am ddim. I wneud cais am y cynhyrchion mislif o'ch dewis, cwblhewch ein ffurflen ar-lein a byddwn yn ei rhoi yn y post i chi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ffonio: 03300 580 845 / 07715 904 304
E-bostiwch:
gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru

Cadw'n Ddiogel

Ein nod yw sicrhau bod ein dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a bod ein dysgwyr yn cael eu hamddiffyn rhag niwed wrth ddysgu gyda ni.

Mae hyn yn golygu ein bod yn eich amddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, gwahaniaethu neu erledigaeth ynghyd â mesurau ar waith i atal damweiniau, digwyddiadau a bwlio ac i ymdrin gyda nhw'n effeithiol pe byddent yn digwydd. Ynghyd â hyn, mae ein dyletswydd diogelu yn cynnwys amddiffyn ein dysgwyr rhag y risg o radicaliaeth ac eithafiaeth; gelwir hyn yn 'Ddyletswydd Prevent' (Prevent Duty).

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu diogel a chroesawgar lle bydd rhaid i bob dysgwr ymddwyn mewn ffordd sy'n gyson gyda gwerthoedd rhyddid, cyfiawnder, democratiaeth a pharch i naill a'r llall ym Mhrydain. I gael mwy o wybodaeth am y 'Ddyletswydd Prevent', ac i gael rhagor o wybodaeth am eich diogelwch wrth i chi ddysgu gyda ni, gweler ein tudalen gwefan 'Cadw'n Ddiogel'. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Os oes gennych unrhyw bryderon, gofidiau neu ymholiadau ynghylch eich diogelwch neu'ch lles, neu unrhyw bryderon ynghylch Prevent, radicaliaeth neu eithafiaeth, cysylltwch gydag ein Swyddogion Diogelu dynodedig.
E-bostiwch: **safeguarding@adultlearning.wales**
Neu ffonio: 02920 235277 / 07931 204613



Yr Iaith Gymraeg

Ni fydd gwaith ysgrifenedig a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r hyn a gyflwynir yn Saesneg. Er nad yw eich hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys derbyn deunyddiau cwrs a chael eich addysgu yn Gymraeg ar hyn o bryd, mae AOC wedi ymrwymo i gynyddu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr ledled Cymru, er mwyn dod yn ddarparwr rhagorol o ystod o wasanaethau i ddysgwyr a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth ddysgu gyda ni, mae gennych yr hawl i:

- Anfon a derbyn gohebiaeth unigol yn Gymraeg.
- Gwneud a derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg (oni bai bod angen i aelod o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg eich ffonio ynglŷn â phwnc penodol).
- Defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd amdanoch chi neu gydag eraill.
- Cyrchu meddalwedd cyfrifiadurol ar Moodle (y llwyfan dysgu ar-lein) i wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg.
- Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.

Cytundeb Dysgu a Chod Ymddygiad Dysgwyr

Rydym yn dymuno sicrhau y byddwch yn elwa'n llawn o'ch cwrs gydag AOC. Er mwyn sicrhau bod yr holl gyfleoedd dysgu yn cyflawni'r safonau uchaf, mae gofynion penodol y gallwch ei ddisgwyl i'r sefydliad eu cyflawni, ac yn yr un modd, bydd gan y sefydliad ddisgwyliadau penodol o ran eich ymddygiad fel dysgwr.

Bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio gyda'r disgwyliadau uchod yn derbyn ymateb yn unol â'r Weithdrefn ynghylch Ymddygiad Annerbyniol gan Ddysgwyr, a gallai niweidio eich gallu i barhau i ddysgu gydag Addysg Oedolion Cymru.



Cyfrifoldebau - Y Sefydliad

Fel darparwr eich dysgu, bydd AOC yn:

- Rhoi gwybodaeth angenrheidiol i chi am y cwrs cyn i chi gychwyn, a sicrhau bod y cwrs yn addas i chi a'r hyn rydych yn dymuno'i gyflawni.
- Darparu amgylchedd diogel ar gyfer eich dysgu a sicrhau y byddwch yn teimlo eich bod yn cael eich parchu a'ch gwerthfawrogi.
- Ymdrin ag unrhyw bryderon yn ymwneud gyda Diogelu a 'Prevent' fel materion brys.
- Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau ein bod yn defnyddio dull gweithredu cynhwysol ym mhob agwedd o'n gwaith.
- Eich cynorthwyo gyda'ch anghenion dysgu ac yn darparu unrhyw gymorth ychwanegol i'r graddau y bydd hynny'n bosibl o fewn rheswm.
- Darparu tiwtoriaid cymwys, profiadol a chefnogol a wnaiff eich hysbysu yn rheolaidd am eich cynnydd a'ch cyflawniadau.
- Rhoi gwybodaeth i chi am ddod yn aelod o Addysg Oedolion Cymru a chyfranogi yng ngwaith y sefydliad ac ein Canghennau.
- Gofyn yn rheolaidd i chi beth yw eich barn am eich cwrs, a gweithredu i wneud gwelliannau, ble gellir gwneud hynny.
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i chi ynghylch sut gallwch barhau i ddysgu ar ôl cwblhau eich cwrs.
- Ymdrin ag unrhyw gwynion a wneir am eich cwrs neu'r sefydliad yn gyflym ac yn effeithiol, yn unol â'r Drefn Gweithredu Cwynion.

Cytundeb Dysgu a Chod Ymddygiad y Dysgwr

Fel un o ddysgwyr AOC, dylech:

- Ymddwyn mewn ffordd gyfrifol i sicrhau diogelwch, gofal a lles eich hun ac eraill.
- Mynychu gwersi yn rheolaidd ac yn brydlon, a hysbysu eich tiwtor os bydd yn rhaid i chi fethu gwers.
- Cyflwyno'r holl waith ar amser a chadw at derfynau amser.
- Trin pob dysgwr, tiwtor, aelod o staff a phartner yn barchus.
- Hysbysu eich tiwtor yn syth os bydd gennych unrhyw bryderon ynghylch Diogelu neu 'Prevent' (trowch at Bolisi Diogelu'r sefydliad i gael rhagor o wybodaeth).
- Cadw at unrhyw reolau a pholisïau sydd gan y Ganolfan Dysgu neu'r lleoliad.
- Parchu cefndiroedd, diwylliannau a chredoau gwahanol bobl eraill.
- Parchu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Ymddwyn mewn modd sydd ddim yn gwahaniaethu yn erbyn pobl eraill.
- Peidio defnyddio iaith a allai dramgwyddo pobl eraill, e.e. iaith sy'n hiliol, rhywiaethol, homoffobig, yn gwahaniaethu ar sail oedran neu'n tramgwyddo pobl sydd ag anabledd.

- Hysbysu eich tiwtor os oes gennych unrhyw anghenion dysgu penodol, neu os oes arnoch angen unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol i gwblhau eich cwrs.
- Talu unrhyw ffioedd cyrsiau sy'n ofynnol yn brydlon.

Gwybodaeth am Asesiadau

Er mwyn llwyddo ar eich cwrs a cyflawni eich achrediad ac ennill cymhwyster, bydd rhaid i chi gwblhau nifer o dasgau fydd yn cael eu hasesu. Caiff y rhain eu nodi a'u hegluro'n glir i chi wrth i'r cwrs fynd rhagddo. Os byddwch yn credu fod unrhyw amgylchiadau yn eich rhwystro rhag cyflwyno asesiad erbyn y dyddiadau cau, bydd disgwyl i chi siarad gyda'ch tiwtor gan egluro unrhyw amgylchiadau esgusodol ac i ofyn am estyniad.

Os na fyddwch yn llwyddo'r asesiad ar y cyflwyniad cyntaf, byddwch yn cael cyfle i ailgyflwyno eich gwaith a bydd eich tiwtor yn pennu dyddiad cau newydd. Gall methu â chwrdd gyda'r dyddiad hwn arwain at fethu'r cwrs.

Sicrhewch eich bod yn manteisio ar unrhyw gyngor gan eich tiwtor, er mwyn i chi allu cyflawni meini prawf yr asesiad a chyflwyno'r gwaith ar amser, a chofiwch hysbysu eich tiwtor am unrhyw anghenion sydd gennych am gymorth.

Addasiad Rhesymol i Asesiad

Os oes gennych anabledd neu anhawster dysgu gellir gwneud cais am addasiad rhesymol mewn sefyllfa asesu. Addasiad rhesymol yw unrhyw weithred sy'n gymorth i leihau effeithiau anabledd neu anhawster dysgu sy'n eich gosod dan anfantais mewn sefyllfa asesu ac mae'n rhaid ei seilio ar eich anghenion unigol.

Siaradwch gyda'ch tiwtor os ydych yn meddwl hwyrach y bydd angen i chi wneud cais am addasiad rhesymol.

Gweithdrefn Apeliadau Asesiad Dysgwr

Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad asesu neu ganlyniad sicrwydd ansawdd mewnol, bydd angen i chi ddilyn y Weithdrefn Apeliadau Asesiad Dysgwr drwy e-bostio'r Tîm Ansawdd ar **Addysg-Quality-Assurance@adultlearning.wales** gan nodi'r mater a rhoi gymaint o fanylion ag y bo modd.

Bydd y Tîm Ansawdd yn cynnal adolygiad o'r penderfyniad a wnaed, ac yn ymateb i chi o fewn 10 diwrnod gwaith. Os ydych dal i deimlo nad yw'r mater wedi'i ddatrys, yna bydd y Rheolwr Ansawdd yn adolygu'r mater ac yn ei gyfeirio at y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA). Mae penderfyniad yr EQA yn derfynol.

Llên-ladrad a Chamymddwyn

Mae llên-ladrad yn fath o dwyllo ac yn gyfystyr gyda thorri rheolau unrhyw sefydliad academaidd yn ddifrifol. Mae unrhyw fath o dwyllo yn tanseilio hygrededd a gwerth y cymhwyster. Mae'r cosbau'n ddifrifol a gallant arwain at eich diarddel o'r cwrs.

Mae gennym gyfrifoldeb i'r cyrff dyfarnu sy'n dosbarthu eich tystysgrifau i sicrhau bod y gwaith a gyflwynir wedi ei wneud gennych chi. Felly, bydd eich gwaith yn cael ei wirio am lên-ladrad, defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) neu gamymddwyn.
Mae hyn yn golygu:

- Ni ddylid copïo gwaith a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun
- Ni ddylid ail-greu syniadau a barn pobl eraill heb gydnabod y ffynhonnell
- Ni ddylid defnyddio offer cyfieithu ar-lein i gopïo gwaith eraill
- Ni ddylech gynllwynio trwy weithio gyda dysgwyr eraill i greu gwaith a gyflwynir fel gwaith dysgwr unigol. (Nid yw hyn yn golygu na allwch wneud gwaith grŵp)
- Ni ddylech esgus mai rhywun arall ydych, er mwyn cynhyrchu gwaith dros unigolyn arall

- Ni ddylech drefnu bod unigolyn arall yn cymryd eich lle mewn asesiad, arholiad neu brawf
- Ni ddylech ffugio canlyniadau a/neu dystiolaeth.
- Lle defnyddir AI i gynhyrchu unrhyw ran neu'r cyfan o'ch gwaith, llên-ladrad yw hyn. Ni fyddai'n briodol dyfynnu AI fel ffynhonnell, yn yr un modd ag y byddech yn dyfynnu ffynonellau mewn llyfryddiaeth, gan mai cynnwys wedi'i gynhyrchu ydyw, ac nid ffynhonnell yng ngwir ystyr y gair.

Yn fyr, ni ddylech dwyllo er mwyn cael mantais annheg.

Os ydych yn cael eich amau o lên-ladrad bydd eich tiwtor yn gofyn i chi ail-wneud y gwaith yn eich geiriau eich hun, a chydnabod yr awduron neu ffynonellau gwreiddiol. Bydd y gwaith yn cael ei ailgyflwyno i'r tiwtor i'w farcio a'i asesu o fewn 5-10 diwrnod. Os byddwch yn parhau i lên-ladrata gwaith, byddwch yn cael eich cyfeirio at y Rheolwr Rhanbarthol a byddwch yn debygol o wynebu camau disgyblu.

Weithiau mae dysgwyr yn llên-ladrata yn anfwriadol, fodd bynnag mater i chi'r dysgwr yw gwirio'r gwaith cyn ei gyflwyno. Ni ellir defnyddio'r esgus nad oeddech yn gwybod eich bod wedi llên-ladrata pam mae llên-ladrad yn eich gwaith.

Os dymunwch apelio yn erbyn y penderfyniad yn dilyn achos o lên-ladrad, mae angen i chi ddilyn y Weithdrefn Apeliadau Asesiad Dysgwr.

Aelodaeth

Mae cynllun aelodaeth AOC yn gymuned o ddysgwyr presennol a blaenorol, a'r rhai hynny sy'n ymroddedig i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a dysgu gydol oes, sydd gyda'i gilydd yn gallu rhoi cymorth i lunio AOC a'r amgylchedd ar gyfer dysgu ledled Cymru.

Fel aelod, gallwch fynychu digwyddiadau i aelodau, derbyn y newyddion diweddaraf am y sefydliad, rhannu eich barn gyda ni a llawer mwy!

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynllun aelodaeth ynghyd a manylion am sut i ymuno ar ein gwefan.

Fforwm Dysgwyr

Mae'n hawdd i unrhyw grŵp o ddysgwyr a phartneriaid cymunedol sefydlu Fforwm Dysgwyr er mwyn trafod eu hanghenion addysgol neu i drefnu digwyddiadau. Gall eich Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm eich helpu i sefydlu fforwm er mwyn:

- Trafod y ddarpariaeth yn eich cymuned
- Hysbysu staff Addysg Oedolion Cymru am anghenion lleol
- Helpu i hysbysebu cyrsiau yn lleol
- Helpu i drefnu gweithgareddau neu deithiau achlysurol

Rydym eisiau clywed gennych chi...

Rydym yn awyddus i chi fwynhau eich dysgu a chael y gorau allan o'ch amser astudio, ac rydym yn eich annog i rannu eich profiadau gyda ni. Mae eich adborth yn bwysig oherwydd, fel dysgwr, gallwch effeithio ar sut y mae eich dysgu yn cael ei ddarparu, a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan lywodraethwyr a staff.

Ffyrdd i roi adborth

- Cwblhau eich ffurflen gwerthuso cwrs
- E-bostiwch

gwasanaethaudysgwyr@addysgoedolion.cymru

- Mynychu Fforwm Dysgwyr
- Ffonio 0300 580845

Canllaw Marcio Llythrennedd

Bydd eich tiwtor yn defnyddio'r symbolau marcio canlynol i'ch helpu i wella cywirdeb eich gwaith ysgrifenedig.

Ystyr y Symbol:	
S	**Gwall sillafu**
PL	**Prif lythyren**
A	**Atalnodi**
SB	**Strwythur brawddeg**
?	**Dryslyd/aneglur**
GA	**Wedi defnyddio gair anghywir**
Ail	**Ailadrodd (gair, ymadrodd neu syniad)**
F	**Amser y ferf**
/	**Dechrau brawddeg newydd**
//	**Dechrau paragraff newydd**
^	**Gair ar goll**
✓	**Adran wedi ei hysgrifennu'n dda. Cynnwys da**
✓✓	**Adran wedi ei hysgrifennu'n dda iawn. Cynnwys da iawn**

Nodiadau

Atgoffa Wythnosol